

Math o Adroddiad Type of Report	Cofnodion		
Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn/Arloesi Môn		
Lle Venue	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad Date	13/2/20	Amser Time	13.00 pm

Yn bresennol:

Cynrychiolwyr y Sector Preifat:		
Nigel Peacock	Contractwr Hunangyflogedig	NP
Alwyn Williams	Medwyn's of Anglesey	AW
Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol/Cymunedol		
Peter Davies OBE	Menter Gymdeithasol Llangefni	PD
Edna Jones	CFFI	EJ
Adrian Roberts	Hafren Gwy	AR
Neville Evans	Iorwerth Arms Bryngwran	NE
Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus		
Martin Jardine	Grŵp Llandrillo Menai (Cadeirydd)	MJ
Molly Lovett	Cyfoeth Naturiol Cymru	ML
Staff Menter Môn		
Jackie Lewis	Menter Môn	JL
Meilir Pritchard	Menter Môn	MP
Sioned Morgan Thomas	Menter Môn	SMT
Dafydd Gruffydd	Menter Môn (MD)	DG
Hefyd yn bresennol		
Ann	Cyfieithydd (Cymen)	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



Pwynt	Manylion	Pwynt Gweithredu
1	Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Peter Davies OBE a gytunodd i gadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb Martin Jardine.	
2	<p><u>Ymddiheuriadau</u></p> <p>Mari Faulkner Dylan Evans Martin Jardine (Cadeirydd)</p> <p>Anfonwyd ymddiheuriadau hefyd gan Jane Davies (Menter Môn) a adawodd y cwmni ar Chwefror 7 2020 – diolchodd yr holl aelodau i Jane am ei chyfraniad gwerthfawr yn ystod y 14 diwethaf.</p> <p>Dywedodd PD fod rhai aelodau'n absennol yn gyson iawn a gofynnodd a ddylid adolygu'r aelodaeth. Dywedodd SMT fod hyn wedi'i wneud yn 2019, fodd bynnag efallai y dylid edrych ar y mater eto yn y LAG nesaf.</p> <p>Cafodd y grŵp hefyd ddiweddariad gan SMT ar sefyllfa staff LEADER:</p> <p>JL MP – Môn 3 diwrnod/Gwynedd 2 ddiwrnod (Swyddog Digidol) SMT – yn cynorthwyo pan oedd angen</p>	<p>Eitem ar gyfer agenda cyfarfod nesaf o'r LAG</p>
3	<p><u>Datgan Buddiant</u></p> <p>Cafwyd datganiadau o fuddiant gan:</p> <p>Peter Davies Neville Evans</p> <p>Mae'r ddau ohonynt yn gyfarwyddwyr BRO Môn - eitem 5 ar yr Agenda</p>	
4	<p><u>Cofnodion y cyfarfod diwethaf – 10/10/19</u></p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf:</p> <p>Cynigiwyd gan – Adrian Roberts</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	Eiliwyd gan – Dafydd Gruffydd	
5	<p><u>Materion yn Codi</u></p> <p>Cytunwyd y byddai pob mater yn codi yn cael eu cynnwys yn yr agenda ac yn cael eu trafod ar yr adeg honno.</p>	
6	<p><u>Trosolwg Ariannol ac Amserlenni</u></p> <p>Dywedodd SMT fod Menter Môn yn gobeithio ymestyn y rhaglen LEADER hyd Fehefin 2023. Byddai gwariant a chyflawni'r prosiect wedi'u cwblhau erbyn Rhagfyr 2022. Byddai'r 6 mis olaf yn cael eu neilltuo i gwblhau prosiectau ac adrodd yn fanwl ar allbynnau a chanlyniadau.</p> <p>Yn ariannol mi fydd hyn yn golygu cyfanswm o 90K y flwyddyn i brosiectau (roedd 80% o'r cronfeydd wedi'i neilltuo)</p> <p>Roedd peth arian ar ôl yn y gronfa Cymunedau Creadigol – ceir diweddariad yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Llongyfarchwyd SMT gan PD ar y diweddariadau a chynnwys ariannol yr adroddiad.</p>	
7a	<p><u>Cynigion ar gyfer Prosiectau:</u></p> <p><u>Comisiwn Tegwch</u></p> <p>Dangoswyd ffilm o Gynhadledd y Comisiwn Tegwch yn Llangefni, fis Hydref 2019 ac eglurodd JL iddi fod yn llwyddiant mawr gyda llawer o ddiddordeb wedi'i fynegi i ddatblygu'r agenda Degwch.</p> <p>Dywedodd fod is-grŵp wedi cymeradwyo prosiect ar raddfa lai i sicrhau y byddai gwaith pellach a oedd yn cael ei wneud yn arwain at well dealltwriaeth a thystiolaeth o angen am Gomisiwn Tegwch i Fôn. Y gwaith y cytunwyd arno oedd comisiynu Astudiaeth Cam 1 a fydd yn:</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



	<ul style="list-style-type: none"> • Gwneud ymchwil leol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gynhadledd gan gynnwys canfod a chyfweld ymarferwyr nad oedd yn bresennol yn y gynhadledd • Cynnal ymchwil desg ar rannau tebyg o Fôn a pha fodelau oeddent yn eu defnyddio i redeg bwrdd Comisiwn Tegwch • Cynnal ymchwil i'r hyn mae cyrff iechyd y cyhoedd yn ei wneud eisoes i fynd i'r afael ag amddifadedd ac allgau cymdeithasol, trafndiaeth a thlodi tanwydd • Cyngori ar weithgarwch y gellid ei wneud, pwy i'w targedu, sut i recriwtio, sut i sicrhau bod pawb yn deall rôl Comisiwn Tegwch a beth mae hynny'n ei olygu • Cyflwyno astudiaeth o opsiynau gydag argymhellion i dreialu model a ffafrir <p>Dywedodd PD fod y Gynhadledd wedi bod yn llwyddiant a bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn ffafrio'r Newport Model a oedd hefyd yn cynnwys hyfforddiant mewn Tegwch i benderfynwyr mewn meysydd llunio polisi.</p> <p>Pwysleisiodd NP na ddylai'r gwaith a gwblhawyd arwain at 'siop siarad' arall ac y dylai pa bynnag fodel a argymhellir yn seiliedig ar ganlyniadau'r astudiaeth weithredu ac ymateb i anghenion lleol.</p> <p><u>Comisiwn Tegwch – Cymeradwyo £7,500 i Astudiaeth Cam 1</u></p>	
7b	<p><u>Coed Brodorol</u></p> <p>Cyflwynodd DG drosolwg o brosiect a gyflwynwyd ganddo i'r system grantiau Cynllun Rheoli Cynaliadwy. Ni fu'r cais yn llwyddiannus yn ei ffurf bresennol; fodd bynnag, roedd y partneriaid (Coed Cymru, CNC, Cyngorau Sir Ynys Môn a Gwynedd) yn awyddus i'w ailgyflwyno i LEADER fel prosiect cydweithredol ar ran y ddwy sir. Bydd y prosiect yn comisiynu astudiaeth i'r angen i blannu coed oherwydd y diffyg coed brodorol yn y ddwy sir, ac i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ceisiadau pellach.</p> <p>Dywedodd ML ei fod yn 'syniad gwych' ac y dylai gynnwys gwrychoedd. Tynnodd sylw hefyd at y prinder meithrinfeydd coed.</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p>Gofynnodd AW a oedd modd cynnwys unrhyw gyfleoedd dysgu sydd wedi deillio o'r ymchwil yn y briff. Roedd cwestiwn hefyd yn ymwneud â lliniaru newid yn yr hinsawdd a defnyddiau posibl o isgynhyrchion plannu coed (Ocsigen). A ellir defnyddio hyn mewn ffyrdd arloesol eraill?</p> <p><u>Astudiaeth Coed Brodorol – cymeradwyo £5,000</u></p>	
7c	<p><u>Bro Môn</u></p> <p>Cafwyd trosolwg gan JL o brosiect Cymorth Sefydlu Bro Môn ac eglurodd fod Bro Môn wedi'i sefydlu drwy raglen wedi'i hariannu gan y Loteri a weinyddir gan y DTA o'r enw Enterprising Solutions.</p> <p>Mae BRO Môn Cyf yn grŵp o 8 Busnes Cymdeithasol ym Môn sydd wedi dod ynghyd i weithredu fel corff aelodaeth newydd a grëwyd i helpu mentrau cymdeithasol eraill i wynebu heriau mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo nodau'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Bydd Bro Môn yn defnyddio ei arbenigeddau personol fel ymarferwyr yn y trydydd sector ym Môn i helpu i</p> <ol style="list-style-type: none"> a. Datblygu rhannu arbenigeddau, sgiliau a phrofiad o fewn mentrau a mudiadau cymunedol yr ynys; <ol style="list-style-type: none"> a b. Lobio asiantaethau statudol ac asiantaethau cyllido ar ran cyrff o'r fath, i gael bargaen a chyd-destun polisi gwell <p>Mae angen cymorth felly gyda:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Brandio • Marchnata • Rhwydweithio • Lansio'r gwasanaeth yn swyddogol <p>Sylwadau'r is-grŵp – dylai grwpiau amgylcheddol a mentrau cymdeithasol hefyd elwa ar BRO Môn a dylid annog dull graddol wrth ei ddatblygu.</p>	



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
Isle of Anglesey
Charitable Trust



	<u>Cymorth Sefydlu BRO Môn – Cymeradwyo £7,500</u>	
7d	<p><u>Sylfaen</u></p> <p>Eglurodd DG fod Sylfaen yn brosiect peilot cydweithredu arfaethedig ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd a fydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth ac i uwchsgilio BBaCh lleol i dendro am gontractau nad ydynt yn gallu eu sicrhau ar hyn o bryd.</p> <p>Cyflwynwyd cais i'r rhaglen Economi Sylfaenol ond bu'n aflwyddiannus; fodd bynnag mae'r partneriaid, Tasglu Gogledd Môn a Choleg Llandrillo-Menai yn awyddus i uwchsgilio contractwyr lleol i'w galluogi i dendro am waith a chael eu cynnwys mewn fframweithiau caffael yn y dyfodol.</p> <p>Bydd y cymorth yn cynnwys amrywiaeth o fentrau cymorth busnes, digwyddiadau a gweithdai.</p> <p>PD – syniad ardderchog; roedd AW yn cytuno bod angen gwirioneddol am y prosiect hwn.</p> <p><u>Sylfaen – Cymeradwyo £44,500</u></p>	
7e	<p><u>Lôn Las Môn</u></p> <p>Dywedodd DG wrth y grŵp fod Lôn Las Môn wedi cysylltu ag ef ynglŷn ag ariannu astudiaeth ddichonolrwydd i wneud defnydd ar y cyd o Lein Amlwch yn y dyfodol fel llwybr cerdded, seiclo a merlota.</p> <p>Gan fod hwn yn fater sensitif ac nad oedd yn amlwg beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd gyda grŵp Lein Amlwch (sy'n dal y brydles) gofynnwyd i aelodau'r LAG am eu barn a sylwadau ar y ffordd ymlaen.</p> <p>Ar ôl llawer o drafod, penderfynwyd cyflwyno cais i'r LAG nesaf (llai na 5K) i ymchwilio i'r sefyllfa bresennol (gan gynnwys dylanwadau cenedlaethol) ac edrych ar y posibiladau ar gyfer datblygu ynghyd â chostau dangosol.</p>	DG i gyflwyno cynnig i'r is-grŵp LAG nesaf



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



8	<p><u>Diweddariadau ar Brosiectau</u></p> <p><u>Gen i Atoch Chi</u></p> <p>Dywedodd JL fod yr arddangosfa Gen i Atoch Chi wedi bod yn llwyddiant mawr gyda dros 3,000 o bobl wedi'i gweld mewn llai na mis. Roedd y lleoliad, Canolfan Ucheldre, Caergybi wedi mwy na dyblu ei helw yn y Caffi ac roeddent yn awyddus i arddangos rhagor o waith yn y dyfodol.</p> <p>Bydd y peilot wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth a bydd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhagor o gatalogio a lanlwytho cynnwys digidol i wefan Casgliad y Werin • Cynhyrchu Pecyn Cymorth • Edrych ar opsiynau eraill i rannu gwaith John ar Ynys Cybi <p>Dangoswyd ffilin fer a llongyfarchwyd JL am y gwaith gan PD ac aelodau'r LAG</p>	
8b	<p><u>IOT/Digidol</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan MP ar IOT a dywedwyd fod synwryddion bellach wedi cael eu harchebu/eu gosod mewn 4 toiled cyhoeddus yn yr ardal i fonitro defnydd.</p> <p>Mae MP hefyd yn gweithio â Chyngor Ynys Môn ar Byrth LoRawan yn Llangefni a Phorthaethwy a dwy arall ar gyfer Amlwch a Chaergybi, gwelwyd fod y ddarpariaeth yn llwyddiannus eisoes yn M Sparc.</p> <p>Roedd presenoldeb da yn y sesiwn lledaenu IOT ac roedd yn llwyddiant. Mae'r prosiect wedi ennyn diddordeb ymhlith Dŵr Cymru, Coleg Llandrillo Menai, Gwynedd a Chyngor Conwy. Mae hyn wedi arwain at sefydlu grŵp IOT newydd gyda chynrychiolwyr o dair gwahanol ardal a sefydliad.</p> <p>Bydd y Wi Fi cymunedol yn Llangefni yn cael ei osod yn fuan a dywedodd PD fod yr Awdurdod Lleol a'r Heddlu wedi cysylltu ag ef ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y dref ac a ellid defnyddio</p>	<p>MP i drefnu cyfarfod â PD i drafod posibiliadau</p>



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



	<p>Wi Fi cymunedol i ganfod a oes problem a'r hyn y gellid ei wneud yn ei chylch.</p> <p>Cytunwyd i drafod y mater ymhellach</p>	
9	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u></p> <p><u>Seiclo Môn</u></p> <p>Nododd NP nad oedd dim gwaith wedi'i wneud ynglŷn â'r cynnig am astudiaeth i edrych ar y posibilrwydd o greu llwybr seiclo arfordirol i Fôn. Dywedodd SMT fod JD wedi gadael y cwmni a bod y gwaith yn cael ei drosglwyddo i JL. Cytunodd JL i gynhyrchu briff i'w ddosbarthu i gontractwyr cyn gynted â phosibl.</p> <p><u>Môn 2020</u></p> <p>Diweddarwyd y grŵp gan JL ar y sefyllfa gyfredol o ran Môn 2020. Byddai'n galendr o ddigwyddiadau – 25 rhwng diwedd y Pasg a Rhagfyr 2020. Bydd yn golygu gweithio â phartneriaid i drefnu'r digwyddiadau hyn a fydd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Awyr Dywyll • Bwyd • Digidol • Ynni Adnewyddadwy • Iaith • Diwylliant/Hanes • Cadwraeth • Rheoli'r dirwedd <p><u>Awyr Dywyll Rhyngwladol</u></p> <p>Dangosodd JL ffilm fer am y Digwyddiad Alban Arthan yn Nhyddyn Môn a oedd yn enghraifft o ddigwyddiad y gellid ei gynnal fel rhan o brosiect cydweithredol ag Awyr Dywyll Rhyngwladol. Cafwyd diweddariad cyffredinol gan gynnwys y ffaith bod Awstria bellach wedi cadarnhau ac roedd diddordeb o Estonia. Nid yw Lithwania wedi cyflwyno cais eto am gefnogaeth eu llywodraeth, ond mae popeth yn edrych yn dda gyda'r gobaith o ddechrau ym Mehefin 2020.</p>	<p>JL i gynhyrchu briff a bwrw ymlaen â'r prosiect</p>



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*



8	<p><u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</u></p> <p>Mai 21 2020 – Neuadd y Dref, Llangefni</p>	
---	---	--



Ymddiriedolaeth
Elusennol Ynys Môn
*Isle of Anglesey
Charitable Trust*

